OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1795 (Cy. 255)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Hydref 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Hydref 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 176(1) a (5) o Ddeddf Tai 1985(**1**) fel y'u hymestynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2015 a deuant i rym ar 19 Hydref 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Cymru) 2015(**4**).

### Diwygio'r hysbysiad yn hawlio arfer yr hawl i brynu

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan Ch o Atodlen 1 (pwy sy'n gymwys a gostyngiadau) yn lle "sef £16,000" rhodder —

"sydd mewn grym o bryd i'w gilydd".

### Arbediad a darpariaeth drosiannol

**3.** Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw hysbysiad a roddwyd cyn 19 Hydref 2015 os rhoddwyd yr hysbysiad ar ffurf a ragnodir gan Reoliadau 2015, neu ar ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi.

(**1**) 1985 p. 68.
(**2**) 1993 p. 38.
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**4**) O.S. 2015/1320 (Cy. 118).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

12 Hydref 2015

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tai (Hawl i Brynu) (Ffurflenni Rhagnodedig) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") sy'n rhagnodi ffurf hysbysiadau penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Tai 1985 ("y Ddeddf") sy'n ymwneud â'r hawl i brynu, a'r manylion sydd i'w cynnwys yn yr hysbysiadau hynny. Mae'r diwygiad yn ymwneud â'r ffurflen ragnodedig sydd i'w defnyddio gan denant diogel sy'n hawlio arfer yr hawl i brynu yn unol ag adran 122 o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau 2015 i roi cyfeiriad at yr uchafswm yn lle swm gwirioneddol uchafswm y gostyngiad yng Nghymru yn y ffurflen ragnodedig sydd i'w defnyddio gan denant diogel sy'n hawlio arfer yr hawl i brynu yn unol ag adran 122 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.